Dŵr Cymru
Welsh Water

V2 - Gorffennaf 2025

# Y Rheoliadau Dŵr Sut maen nhw'n effeithio ar eich cyflenwad dŵr preifat



Dŵr yfed diogel,
o safon uchel a
dibynadwy bob amser.

Mae'r daflen hon yn esbonio'r camau penodol y mae angen eu cymryd cyn disodli neu ategu cyflenwadau dŵr preifat. Mae canllawiau **yma** ar ein gwefan hefyd os ydych am gael gwybodaeth fwy cyffredinol am y broses.

## Cam 1: Cynllunio'ch cysylltiad

Defnyddiwch y cynllun cysylltu rydyn ni wedi ei rannu â chi i ddewis y llwybr gorau ar gyfer eich pibell gyflenwi newydd.

Rhaid i'r gwaith o osod y bibell gyflenwi gydymffurfio â Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999, ac unrhyw amodau rhesymol eraill y mae Dŵr Cymru'n eu pennu.

Os oes unrhyw gwestiynau gennych, cysylltwch â'ch ymgynghorydd yn y Gwasanaethau Datblygu.

## Cam 2: Rhoi gwybod i ni eich bod am fwrw ymlaen â'r gwaith

Pan fyddwch am fwrw ymlaen â'r cysylltiad newydd, cysylltwch â'ch ymgynghorydd yn y Gwasanaethau Datblygu. Bydd un o'n Swyddogion Rheoliadau Dŵr yn ymweld â'ch safle ac yn trafod unrhyw ofynion ychwanegol, gan gynnwys y safonau y mae angen i'ch system plymio gyfredol a'ch ffitiadau eu bodloni. **ae hi'n bwysig peidio â dechrau unrhyw waith cyn y cyfarfod safle yma.**

## Cam 3: Talu eich dyfynbris a chyflawni'r gwaith

Ar ôl y cyfarfod, dylech dalu eich dyfynbris.

Wedyn gallwch fwrw ymlaen â'r gwaith o osod eich pibell gyflenwi i'r pwynt a nodwyd ar y plan cysylltu, ac unrhyw waith ychwanegol sydd ei angen ar eich system plymio gyfredol.

## Cam 4: Trefnu archwiliad o'r ffos

Pan fyddwch chi wedi gosod y bibell yn unol â Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999, ac wedi bodloni'r holl ofynion eraill o ran rhoi caniatâd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Datblygu i drefnu archwiliad o'r ffos.


Hwyrach na fydd angen archwilio'r ffos os ydych chi wedi defnyddio contractwr cymeradwy sy'n gallu hunan-ardystio'r gwaith yma. Mae rhestr o gontractwyr cymeradwy yn **www.watersafe.org.uk**. Ond bydd angen cyflawni archwiliad o'r system plymio o hyd er mwyn sicrhau bod unrhyw waith arall wedi cael ei gwblhau.

Ar ôl i chi basio'r archwiliad o'ch ffos, a bodloni unrhyw amodau eraill (fel y rhai a nodwyd yn ystod eich cyfarfod safle â ni), caiff y mater ei drosglwyddo i'n contractwyr a fydd yn cysylltu â chi'n uniongyrchol i drefnu dyddiad i greu eich cysylltiad. Oni bai bod angen cau ffyrdd neu fod angen i'r awdurdod lleol orfodi cyfyngiadau ar y briffordd, bydd hynny cyn pen 21 diwrnod fel rheol.

## Cam 5: Archwiliad ar ôl cysylltu

Yn fuan ar ôl creu'r cysylltiad, cewch archwiliad pellach i sicrhau bod eich cyflenwad preifat wedi cael ei ddatgysylltu'n barhaol fel na fydd unrhyw draws-gysylltiad â'r cyflenwad dŵr yfed o'r brif bibell, neu fod trefniadau wrth gefn yn cael eu gwneud, fel trefniant atal adlif sy'n cydymffurfio

# Dyma ddiagram o’r broses



# Cwestiynau cyffredin:

## 1: Dim ond fel cyflenwad wrth gefn ar gyfer cyfnodau pan fo'r cyflenwad preifat dan bwysau yn ystod tywydd sych rydyn ni eisiau'r cyflenwad o'r brif bibell, oes modd caniatáu hynny?

Oes, ond rhaid cadw'r ddau gyflenwad yn ffisegol ar wahân. Dylid gosod y cyflenwad wrth gefn trwy fwlch aer addas yn unol â Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999. Ni chaniateir defnyddio falfiau ynysu a falfiau un ffordd.

## 2: Rydyn ni am gael cyflenwad o'r brif ffrwd i'w ddefnyddio yn y tŷ yn unig. A gawn ni gadw'r Cyflenwad Preifat at ddibenion eraill, fel yr ardd a'r anifeiliaid?

Cewch, ond rhaid cadw'r ddau gyflenwad yn ffisegol ar wahân yn barhaus.

Bydd angen i'r system plymio yn y tŷ gydymffurfio â Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999. Gallai hynny gynnwys labelu'r pibellwaith a'r tapiau er mwyn clustnodi pa rai sy'n dod o'r cyflenwad preifat.

Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd angen i'ch system blymio gyfredol gael ei fflysio a'i diheintio cyn creu'r cysylltiad newydd.

## 3: Rydyn ni am ddadgomisiynu ein cyflenwad preifat yn llwyr, beth yw'r gofynion ar gyfer defnyddio ein system plymio gyfredol?

Bydd angen i'ch system plymio i gyd, gan gynnwys y pibellwaith, y ffitiadau, y cyfarpar a'r cysylltiadau ag unrhyw brosesau, gydymffurfio â Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999.

Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd angen i'ch system blymio gyfredol gael ei fflysio a'i diheintio cyn creu'r cysylltiad newydd.

Os byddwch chi'n penderfynu dechrau defnyddio eich cyflenwad preifat eto yn y dyfodol, bydd angen i chi roi gwybod i ni am eich bwriad i wneud hynny, a bydd angen cadw'r ddau gyflenwad yn ffisegol ar wahân.

# Gwybodaeth bellach:

I gael rhagor o wybodaeth am Gontractwyr Cymeradwy, ewch i: www.watersafe.org.uk

I gael copi o Reoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999, ewch i: dwrcymru.com neu sganiwch y cod QR am fanylion.

Os oes ymholiadau gennych am y eich cais a'r broses ar gyfer cysylltiadau newydd, cysylltwch â'r: Gwasanaethau Datblygu https://developers.dwrcymru.com/

Gydag ymholiadau am gyflawni gwaith plymio ar y system plymio gyfredol, cysylltwch â Rheoliadau Dŵr: www.dwrcymru.com/rheoliadaudwr

